Dewch i siarad RhCT
Let's talk RCT

# STRATEGAETH CYFRANOGIAD CYHOEDDUS



RHONDDA CYNON TAF

# RHAGAIR

Mae cyfranogiad y cyhoedd yn hanfodol i sicrhau bod lleisiau dinasyddion wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. Mae'n rhoi cyfle i anghenion a dyheadau cymunedau gael eu clywed ac yn galluogi darparwyr gwasanaethau cyhoeddus i ymateb. Mae ein Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus a'r cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd â hi yn nodi sut y byddwn ni'n siarad ac yn gwrando gyda phawb sy'n byw, gweithio ac astudio yn Rhondda Cynon Taf mewn perthynas â'r broses ddemocrataidd. Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar sut y gall pobl gymryd rhan ym mhenderfyniadau'r Cyngor ac mae'n ceisio gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r broses ddemocrataidd a sut mae'r Cyngor yn gweithio. Mae'n rhedeg ochr yn ochr â Fframwaith Cynnwys ac Ymgysylltu 2020-24 y Cyngor, sy'n nodi sut y byddwn ni'n hysbysu, ymgysylltu ac ymgynghori â phobl sy'n byw ac yn gweithio yn Rhondda Cynon Taf ac yn eu cynnwys. Mae'r fframwaith yn rhoi arweiniad i wasanaethau'r Cyngor a sefydliadau partner ar sut i gynnwys rhanddeiliaid wrth wneud penderfyniadau a sicrhau bod lleisiau pobl a chymunedau'n cael eu clywed.

**Mae ein Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus Ddemocrataidd yma'n manylu ar sut mae'r Cyngor yn bwriadu:**

- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o swyddogaethau'r cyngor ymhlith pobl leol
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o sut i ddod yn aelod o Gyngor Rhondda Cynon Taf, a beth mae hynny'n ei olygu, ymhlith pobl leol
- Sicrhau bod modd i bobl leol ddod o hyd i wybodaeth am benderfyniadau sydd wedi'u gwneud, neu sydd i'w gwneud, gan y Cyngor
- Hyrwyddo prosesau a'u rhoi ar waith er mwyn i bobl leol gyflwyno sylwadau i'r Cyngor am benderfyniad cyn ac ar ôl iddo gael ei wneud
- Trefniadau sydd wedi'u rhoi ar waith, at ddibenion dyletswydd y Cyngor, i dynnu sylw'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu at farn y cyhoedd
- Ffyrdd o hyrwyddo ymwybyddiaeth o fuddion defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â phobl leol ymhlith Aelodau'r Cyngor.

Mae Crynodeb clir o'r Strategaeth ar gael yma. here.

Diben ein Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus hon yw ei gwneud hi'n haws i bawb yn Rhondda Cynon Taf gael llais yn ein proses gwneud penderfyniadau, yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Fel rhan o gyflawni'r gofynion statudol hyn rydym ni am adeiladu a chynnal perthnasau gyda'n cymunedau, ac rydyn ni am sicrhau bod yr holl ymgysylltu'n effeithiol, effeithlon a chyson fel sydd wedi'i amlinellu yn Fframwaith Cynnwys ac Ymgysylltu'r Cyngor. Mae cyfnod anodd o'n blaenau, a ffocws allweddol yn ein hymagwedd fydd sicrhau'r ddealltwriaeth ehangaf o'r heriau hyn a'r penderfyniadau angenrheidiol gan y Cyngor, er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i ni.

Gweledigaeth y Cyngor yw “I Rondda Cynon Taf fod y lle gorau yng Nghymru i fyw, gweithio a chwarae ynddo, lle mae pobl a busnesau yn annibynnol, yn iach ac yn llewyrchus.” Mae cyfranogiad ac adborth parhaus ein trigolion a’n cymunedau wedi llywio penderfyniadau’r Cyngor sy’n helpu i gyflawni’r Weledigaeth yma a chyflawni’r blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun Corfforaethol 2020-2024 Gwneud Gwahaniaeth.





**Cllr Andrew Morgan**

Arweinydd a Chadeirydd y Cabinet



**Cllr Gareth Hughes**

Llywydd y Cyngor




**Cllr Julie Edwards**

Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu



**Cllr S Rees**

Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu



**Cllr A Fox**

Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu

# CRYNODEB

- Mae’r Cyngor yn cynnwys saith deg pump o Gynghorwyr etholedig sy’n cynrychioli cymunedau lleol Wardiau Etholiadol ar draws Rhondda Cynon Taf.
- Mae’r Cyngor fel arfer yn cyfarfod yn fisol ac mae ganddo restr o swyddogaethau sy’n cynnwys;
    - mabwysiadu a newid y Cyfansoddiad (dogfen gyfreithiol ysgrifenedig sy’n arwain y cyngor ar ei brosesau gwneud penderfyniadau)
    - cymeradwyo a mabwysiadu’r Gyllideb
    - penodi’r Arweinydd
    - pennu a chytuno ar Bwyllgorau (grwpiau llai o Gynghorwyr sydd â’r dasg o gyflawni rhai swyddogaethau) a’u cylch gorchwyl.
- Mae hyd at 10 o aelodau o’r Cyngor yn ffurfio’r Cabinet (yr Adain Weithredol), gan gynnwys Arweinydd y Cyngor.
- Mae’r Cabinet yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau sydd ddim yn gyfrifoldeb gan y Cyngor. Mae Aelodau o’r Cabinet yn gyfrifol am wneud penderfyniadau o fewn meysydd penodol. Portffolios rydyn ni’n galw’r rhain.
- Mae’r Pwyllgor Craffu’n gweithredu’n ‘gyfaill beirniadol’ neu ‘her gyfeillgar’ i’r Cabinet a’r rheiny sy’n gwneud penderfyniadau er mwyn hyrwyddo gwasanaethau, polisïau a phenderfyniadau gwell. Gan weithio mewn ffordd debyg i bwyllgorau dethol seneddol, mae pwyllgorau craffu yn cynnwys cynghorwyr nad ydyn nhw’n rhan o’r cabinet.
- Y Pwyllgor Cynllunio, y Pwyllgorau Trwyddedu a’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy’n gwneud penderfyniadau rheoleiddio’r Cyngor.
    - Y Pwyllgor Cynllunio sy’n penderfynu ar geisiadau cynllunio
    - Y Pwyllgor Trwyddedu sy’n penderfynu ar drwyddedau i yrru cerbyd Hacni neu gerbyd hurio preifat (tacsis), trwyddedau adloniant cyhoeddus ar gyfer eiddo ymhlith eraill
    - Mae’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn adolygu ac yn craffu ar faterion ariannol y Cyngor
- Mae’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn adolygu pa mor ddigonol yw’r ddarpariaeth gan yr Awdurdod i gefnogi’r broses ddemocrataidd.
- Mae’r Pwyllgor Safonau yn hyrwyddo safonau ymddygiad uchel ac yn cefnogi Cynghorwyr i gydymffurfio â safonau ymddygiad o’r fath.

# BETH SYDD YN Y DDOGFEN YMA?

**Adran 1**
Sut bydd y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021?

**Adran 2**
Cyfeiriad at y dogfennau canlynol i gynorthwyo'r cyhoedd i gymryd rhan yng ngwaith y Cyngor

- Fframwaith Cynnwys ac Ymgysylltu 2020-2024 y Cyngor
- Canllaw Cymryd Rhan yng Ngwaith y Cyngor i Drigolion
- Canllaw Cymryd Rhan yng Ngwaith Craffu i Breswylwyr
- Canllaw Cymryd Rhan yng Ngwaith y Cabinet i Drigolion
- Canllaw Cymryd Rhan mewn Pwyllgorau Rheoleiddiol i Drigolion

**Adran 3**
Sut byddwn ni'n mesur llwyddiant?

Mae modd dod o hyd i eirfa yn cynnwys peth o'r derminoleg a ddefnyddir drwy'r Strategaeth ar ddiwedd y ddogfen.

Mae fersiwn Cymraeg Clir ar gael yma.

(DS. Mae'r dogfennau i gyd sydd â dolen yn y ddogfen yma ar gael ar ffurf copi papur ar gais drwy gysylltu ag Uned Materion Busnes y Cyngor drwy'r o'r ffyrdd isod:
Llythyr: Uned Busnes y Cyngor, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, 3ydd Llawr, 2 Llys Cadwyn, Stryd y Taf, Pontypridd, CF37 4TH
Ffoniwch: 07385 401845
E-bost: BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk



# ADRAN 1

**Sut bydd y Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021?**

Mae Adran 40 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar bob Cyngor i baratoi a chyhoeddi Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd (y ddogfen hon).

Bydd y Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus yma'n ategu Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu'r Cyngor. Mae'n ofynnol i'r Strategaeth hyrwyddo chwe dyletswydd:

1. **Swyddogaethau'r Cyngor.**
2. **Sut i ddod yn Aelod (Cynghorydd) o'r Cyngor, a beth mae aelodaeth (Bod yn Gynghorydd) yn ei olygu.**
3. **Cael mynediad at wybodaeth am benderfyniadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, gan y Cyngor.**
4. **Cyflwyno sylwadau i'r Cyngor am benderfyniad cyn ac ar ôl iddo gael ei wneud.**
5. **Trefniadau sydd wedi'u rhoi ar waith, at ddibenion dyletswydd y Cyngor yn adran 62 Mesur 2011, i dynnu sylw'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu at farn y cyhoedd.**
6. **Manteision o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â phobl leol.**

# DYLETSWYDD 1. SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR

**Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r swyddogaethau y mae'r Cyngor yn eu cyflawni i drigolion lleol, busnesau ac ymwelwyr.**


*Mae'r wybodaeth yma ar gael mewn fformat printiedig ac mae modd dod o hyd iddi ym Mhencadlys y Cyngor trwy ddogfennau megis Cyfansoddiad y Cyngor a Chynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae modd dod o hyd i gopïau electronig o'r dogfennau hyn ar wefan y Cyngor hefyd.*

*Byddwn ni'n hyrwyddo'r wybodaeth yma ymhellach drwy geisio sicrhau bod copïau o'r ddogfennaeth ar gael i fusnesau eraill y Cyngor megis Llyfrgelloedd ar gais.*

## Sut mae'r Cyngor yn Gweithredu

Mae pob un o'r 75 o gynghorwyr yn cyfarfod fel Cyngor Rhondda Cynon Taf. Mae holl gyfarfodydd y Cyngor yn agored i'r cyhoedd, ond yn achlysurol bydd y Cyngor yn penderfynu mynd i sesiwn breifat os yw mater cyfrinachol neu eithriedig i'w drafod, fel sy'n cael ei nodi ar agenda'r cyfarfod. Mae sesiynau preifat y Cyngor yn brin.

Yng nghyfarfodydd y Cyngor mae'r Cynghorwyr yn penderfynu ar bolisïau cyffredinol y Cyngor ac yn pennu'r gyllideb bob blwyddyn (Swyddogaethau Anweithredol yw enw arall ar gyfer hyn). Mae gan y Cyngor Gabinet sy'n gyfrifol yn ei dro am weithredu polisïau y cytunwyd arnyn nhw gan y Cyngor a gwneud penderfyniadau gweithredol ar faterion nad ydyn nhw'n gyfrifoldeb y Cyngor na'i Bwyllgorau (Swyddogaethau Gweithredol yw enw arall ar gyfer hyn).



## Sut mae'r Cyngor yn Gweithio

Mae'r Cyngor yn cynnwys 75 o Gynghorwyr sy'n cynrychioli 46 Ward Etholiadol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.

Fel arfer bydd y Cyngor yn cyfarfod yn fisol ac mae ganddo restr o swyddogaethau sy'n cynnwys; gweithredu a newid y Cyfansoddiad, cymeradwyo a mabwysiadu'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi, penodi Arweinydd y Cyngor, pennu a chytuno ar Bwyllgorau a'u cylch gorchwyl. Mae gan y Cyngor raglen waith hyblyg sy'n nodi'r busnes i'w drafod ym mhob Pwyllgor.

Mae nifer o Gynghorwyr (gall hyn gynnwys Aelodau Cabinet sy'n Rhannu Swyddi) yn ffurfio'r Cabinet (yr Adain Weithredol). Arweinydd y Cyngor yw Cadeirydd y Cabinet. Dylai'r Cabinet yn gyfrifol am gyflawni holl swyddogaethau'r Awdurdod Lleol nad ydyn nhw'n gyfrifoldeb y Cyngor. Mae'r Cabinet yn bwrw ymlaen â 'Phenderfyniadau Allweddol.' Mae Aelodau o'r Cabinet yn gyfrifol am wneud penderfyniadau o fewn meysydd penodol. Portffolios y Cabinet rydyn ni'n galw'r rhain.

Mater i ddisgresiwn a phenderfyniad Arweinydd y Cyngor yw sut mae mynd ati i roi'r swyddogaethau yma ar waith. Yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor, bydd yr Arweinydd yn cyflwyno dogfen i'w chynnwys yn y Cynllun Dirprwyo yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol am swyddogaethau Gweithredol / y Cabinet ar gyfer y flwyddyn ddinesig i ddod:

- graddau unrhyw awdurdod sydd i ddirprwyo i Aelodau o'r Cabinet yn unigol, gan gynnwys manylion y cyfyngiad ar eu hawdurdod;
- yr Arweinydd sy'n pennu cylch gorchwyl a chyfansoddiad Pwyllgorau Cabinet o'r fath

Mae modd dod o hyd i gopi o Gynllun Dirprwyo'r Arweinydd yma.



Caiff Uwch Swyddogion sy'n rhan o Garfan yr Uwch Arweinwyr wneud penderfyniadau ar ran y Cyngor. 'Penderfyniadau Dirprwyedig' ydy enw ar y rhain. Mae modd gweld cofnod o benderfyniadau dirprwyedig yma. Mae'r Cynllun Diprwyo hefyd yn nodi natur a graddau unrhyw ddirprwyo i Swyddogion, gyda manylion unrhyw gyfyngiad ar y dirprwyo hwnnw, a theitl y Swyddog sydd wedi cael yr awdurdod dirprwyo.



Mae Pwyllgorau Craffu yn gweithredu fel 'cyfaill beirniadol' i'r Cabinet ac i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau i hyrwyddo gwell gwasanaethau, polisïau, a phenderfyniadau. Mae'r Pwyllgorau Craffu yn cynnwys cynghorwyr nad ydyn nhw'n rhan o'r Cabinet. Mae hyn yn debyg i bwyllgorau dethol seneddol.



Mae'r Pwyllgor Cynllunio, Pwyllgorau Trwyddedu a Llywodraethu ac Archwilio yn gwneud penderfyniadau rheoleiddio'r Cyngor.

1. Y Pwyllgor Cynllunio sy'n penderfynu ar geisiadau cynllunio.
2. Y Pwyllgor Trwyddedu Statudol sy'n pennu trwyddedau adloniant cyhoeddus ar gyfer mangreoedd/safleoedd ymhlith eraill.
3. Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol sy'n penderfynu ar drwyddedau i yrru cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat (tacsis).
4. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn adolygu ac yn craffu ar faterion ariannol y Cyngor.



Mae Pwyllgorau Llywodraethu'r Cyngor yn cyflawni swyddogaethau penodol yn yr Awdurdod Lleol i sicrhau bod safonau uchel o ymddygiad yn cael eu cynnal.

1. Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn adolygu pa mor ddigonol yw'r ddarpariaeth gan yr Awdurdod i gyflawni'r swyddogaeth gwasanaethau democrataidd.
2. Mae'r Pwyllgor Safonau yn ceisio hybu safonau uchel o ymddygiad a chefnogi Cynghorwyr i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.

## Strwythur y Cyngor ar gyfer Dod i Benderfyniadau

**Y Cyngor**
Bydd pob un o'r 75 o Gynghorwyr yn cyfarfod yn fisol fel arfer ac yn gyfrifol am gytuno ar y gyllideb a'r fframwaith polisi corfforaethol. Mae dolen i Gynllun Corfforaethol y Cyngor ar gael yma.

Y Cyngor sy'n pennu fframwaith rheolaeth wleidyddol yr awdurdod yn ogystal â phenodi Arweinydd y Cyngor a chadeiryddion pwyllgorau penodol, megis Cadeiryddion y pwyllgorau craffu. Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am benodi ei Brif Weithredwr a Chyfarwyddwyr.

**Cabinet**
Mae'r Arweinydd wedi cynnwys ei Gabinet o wyth Cynghorydd â phleidlais gan gynnwys Arweinydd y Cyngor (o uchafswm o 10). Mae hawl cynnal trefniant Rhannu Swydd ar gyfer Aelodau o'r Cabinet. Mae Arweinydd y Cyngor yn penodi'r Cabinet ac mae pob Aelod o'r Cabinet yn cael Portffolio yn ôl thema/maes.

Mae'r Cabinet yn cynnig strategaeth y gyllideb i'r Cyngor ac mae'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar bolisïau'r Cyngor dan arweiniad gwleidyddol Arweinydd y Cyngor.

Mae'r Arweinydd yn cytuno ar ei gynllun dirprwyo ac yn rhoi awdurdod dirprwyedig ar gyfer penderfyniadau gweithredol i Aelodau o'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, yn unol â pholisi a chyllideb y Cyngor.

**Craffu**
Mae 4 Pwyllgor Craffu, gan gynnwys y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu sy'n cydgysylltu holl weithgarwch craffu. Mae Gweithgorau Craffu yn rhoi ystyriaeth fanwl i faterion penodol o bryder.

Mae craffu yn dal y Cabinet (yr Adain Weithredol) i gyfrif, gan gynnwys cyfrifoldeb am graffu cyn gwneud penderfyniad a galw penderfyniadau i mewn. Yn y pen draw, swyddogaeth craffu yw monitro a herio effeithiolrwydd darparu gwasanaethau, polisïau a chyflawniad a gwelliant.

Mae rhestr lawn o bwyllgorau craffu'r Cyngor a'u cylch gorchwyl priodol yma.

**Pwyllgorau eraill**

Mae modd gweld rhagor o wybodaeth am Bwyllgorau yma.



# DYLETSWYDD 2. SUT I DDOD YN AELOD (CYNGHORYDD) O'R CYNGOR, A BETH MAE AELODAETH (BOD YN GYNGHORYDD) YN EI OLYGU

**Rhannu gwybodaeth am sut i fynd ati i ddod yn aelod etholedig – neu gynghorydd – a beth mae rôl cynghorydd yn ei olygu**

Mae'r wybodaeth yma hefyd i'w chael ar wefan y Cyngor gyda gwybodaeth ychwanegol gan gynnwys astudiaethau achos o Aelodau, yn rhoi enghreifftiau o'u rolau a'r rhesymau pam y daethant yn rhan o'r broses ddemocrataidd. Darperir gwybodaeth am rôl Cynghorwyr yn swyddfeydd cofrestru etholiadol y Cyngor hefyd. Mae Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yn hapus i gynnal cyfarfodydd neu alwadau gydag unrhyw un sydd â diddordeb mewn bod yn Aelod Etholedig.

Mae rhagor o fanylion cyffredinol am sut i ddod yn Aelod Etholedig ar wefannau a swyddfeydd eraill megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Swyddfa Cofrestru Etholiadol. Byddwn ni'n hyrwyddo'r wybodaeth yma ymhellach trwy gynhyrchu llyfryn yn ymwneud â'r wybodaeth hanfodol i ddod yn Gynghorydd a fydd wedi'i leoli mewn lleoliadau canolog y Cyngor ar draws y Fwrdeistref Sirol megis llyfrgelloedd. Bydd gwaith hefyd yn cael ei wneud i symud ymlaen â hyrwyddo rôl Cynghorydd trwy fynychu rhai Digwyddiadau Cyngor ar draws y Fwrdeistref Sirol.



## Sut i ddod yn Gynghorydd

Bydd yr Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf ym mis Mai 2027. Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth i chi ar sut i sefyll etholiad a'r hyn sydd i'w ddisgwyl gennych chi pe baech chi'n eich ethol yn Gynghorydd Rhondda Cynon Taf.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi paratoi gwefan "Byddwch yn Gynghorydd. Sicrhewch mai chi yw'r newid". Mae'n ganllaw defnyddiol i ddarpar ymgeiswyr.

Dyma gyfeiriad y wefan [www.byddwchyngynghorydd.cymru/](www.byddwchyngynghorydd.cymru/)

Mae gan Gyngor Rhondda Cynon Taf wefan "Dod yn Gynghorydd", sy'n cynnwys adran cwestiynau ac atebion defnyddiol a fideo o sylwadau gan Aelodau presennol a chyn-aelodau am eu profiadau o fod yn Gynghorydd.

## Faint o amser mae'n ei gymryd i gyflawni rôl Cynghorydd?

Amcangyfrifir bod Cynghorwyr, ar gyfartaledd, yn treulio'r hyn sy'n cyfateb i dri i bedwar diwrnod yr wythnos yn datblygu gwaith sy'n gysylltiedig â'u rôl fel Cynghorydd, megis ymateb i ymholiadau, mynychu cyfarfodydd ag etholwyr, mynychu cyfarfodydd y Cyngor.

Mae rhai Cynghorwyr yn treulio mwy o amser na hyn, a rhai yn llai, a all fod yn ddibynnol ar eich rôl o fewn y Cyngor neu nifer yr ymholiadau a gewch gan eich etholwyr. Os ydych chi mewn cyflogaeth ac yn bwriadu sefyll fel ymgeisydd efallai y byddwch am ofyn i'ch cyflogwr pa ddarpariaethau sydd ganddyn nhw ar waith i'ch galluogi i gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith, i'ch galluogi i fod yn bresennol yn eich dyletswyddau Cyngor gan gynnwys presenoldeb yng nghyfarfodydd y Cyngor.



## Sefyll fel Ymgeisydd

Rhaid i ymgeisydd ar gyfer etholiad lenwi set o bapurau enwebu y mae'n rhaid iddo eu llofnodi ym mhresenoldeb tyst y mae'n rhaid iddo yntau ardystio'r llofnod.Yna mae angen i chi ennill mwyafrif y pleidleisiau a fwriwyd yn y blwch pleidleisio (os Bydd mwy o ymgeiswyr na'r seddi sydd ar gael). Mae gan rai wardiau etholiadol hyd at 3 Chynghorydd, felly byddai'r tri uchaf yn cael eu hethol.

Bydd pecynnau enwebu ar gael yn gynnar yn 2027. Pe hoffech chi gofrestru eich

diddordeb, anfonwch e-bost i gwasanaethauetholiadol@rctcbc.gov.uk

Mae rhagor o wybodaeth ddefnyddiol ar gael yma.

Os ydych chi'n ystyried sefyll fel ymgeisydd ar gyfer plaid wleidyddol benodol, yna fe

ddylech chi gysylltu â mudiad lleol y blaid honno yn y lle cyntaf. Os ydych chi'n bwriadu

sefyll mewn etholiad fel Cynghorydd annibynnol, cysylltwch â ni a byddwn ni'n falch o roi ragor o wybodaeth.

Mae cynghorwyr yn derbyn cyflog sy'n cael ei bennu'n flynyddol gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW). Mae modd hefyd iddyn nhw hawlio costau teithio a chynhaliaeth (talu am brydau a llety 'y tu allan i'r sir' yn unig) wrth gyflawni dyletswyddau swyddogol. Gall cynghorwyr hefyd hawlio tuag at gostau gofal a chymorth personol iddyn nhw fynd ynglŷn â'u dyletswyddau cymeradwy.

Dyma ragor o wybodaeth am Gyflogau a Lwfansau Cynghorwyr –

https://llyw.cymru/panel-cydnabyddiaeth-annibynnol-cymru



## Cymorth i Ymgeiswyr Anabl sy'n Ceisio Etholiad

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cyllid ar gyfer cynllun peilot i ariannu addasiadau rhesymol a chymorth i ymgeiswyr anabl sy'n rhoi eu henw gerbron ar gyfer etholiadau Llywodraeth Leol. Gellir gweld rhagor o wybodaeth yn https://www.disabilitywales.org/projects/access-to-elected-office-fund-wales/?lang=cy



## Beth mae bod yn Gynghorydd yn ei olygu

Caiff Cynghorwyr eu hethol bob 5 mlynedd. Mae cynghorwyr yn atebol yn ddemocrataidd i drigolion eu hetholaeth. Mae prif ddyletswydd cynghorwyr i'r gymuned gyfan, ond mae gyda nhw ddyletswydd arbennig i'w hetholwyr, gan gynnwys y bobl wnaeth ddim pleidleisio drostyn nhw.

Unwaith y cânt eu hethol, bydd disgwyl i Gynghorwyr fynychu sesiynau hyfforddi a datblygu amrywiol yn ystod eu tymor yn y swydd. Bydd rhaglen Sefydlu/Cyflwyno i Gynghorwyr ar gyfer pob Cynghorydd newydd a chynghorydd sy'n dychwelyd yn ystod y 12 mis cyntaf gyda hyfforddiant pellach yn cael ei ddarparu'n barhaus trwy sesiynau datblygu i aelodau. Dylai Cynghorwyr neilltuo amser yn ystod y 3 mis cyntaf ar ôl yr etholiad ar gyfer y Rhaglen Sefydlu Cynghorwyr.

Disgwylir i Gynghorwyr fynychu cyfarfodydd a phwyllgorau a rhaid iddyn nhw gadw at ddarpariaethau Cod Ymddygiad Cynghorwyr. Mae rhagor o wybodaeth ddefnyddiol ar gael yma.

Mae'r Cyngor yn llwyr gefnogi cyfarfodydd hybrid, lle gall Cynghorwyr fynychu'r Cyngor, y Cabinet a'r mwyafrif o Gyfarfodydd Pwyllgor yn gorfforol neu o bell. Cyfarfodydd Aml-leoliad (MLM) / hybrid yw enw'r rhain. Gallen nhw fod yn ddefnyddiol i bobl sydd â chyfrifoldebau megis gwaith, gofalu ac ati, trwy roi modd i gymryd rhan o leoliad sy'n gyfleus.

A hwythau'n gynrychiolwyr lleol, mae gan Gynghorwyr gyfrifoldebau tuag at eu hetholwyr a sefydliadau lleol. Mae'r cyfrifoldebau a'r dyletswyddau hyn yn aml yn dibynnu ar yr hyn y mae'r Cynghorydd am ei gyflawni a faint o amser sydd ar gael. Fe allan nhw gynnwys: mynychu cyfarfodydd cyrff llywodraethu ysgolion yn ei ward, mynychu cyfarfodydd sefydliadau lleol megis cymdeithasau tenantiaid, cyrff sy'n effeithio ar y gymuned ehangach, codi materion ar ran aelodau'r cyhoedd, cynnal cymorthfeydd i breswylwyr godi materion a chyfarfod â phreswylwyr unigol yn eu cartrefi eu hunain.

Mae gan gynghorwyr hawl i gyflog sylfaenol (£17,600 y flwyddyn yn 2023-2024). Telir Uwch Gyflogau a lwfansau/treuliau eraill yn dibynnu ar y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau a all fod gan y Cynghorydd ar ôl yr etholiad.

## Cyfleusterau a Chymorth i Gynghorwyr

Mae Uned Materion Busnes y Cyngor, sef y Gwasanaethau Democrataidd, yn gyfrifol am gefnogi a threfnu cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet, Pwyllgorau ac ati, a darparu gwasanaeth cymorth penodol i bob Aelod Etholedig, gan roi cyngor ar arfer cyfarfodydd i Gynghorwyr, Swyddogion, a'r cyhoedd. Mae'r gwasanaeth hefyd yn helpu Cynghorwyr gydag ymholiadau a cheisiadau gweinyddol yn ogystal â chefnogi iechyd a lles Cynghorwyr.

Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd sydd â'r rôl o gefnogi Aelodau mewn rolau anweithredol yn cynnig y cyfle i bob Aelod gynnal Adolygiad Datblygiad Personol o leiaf unwaith y flwyddyn, i roi cyfle yn gyfrinachol i bob Aelod drafod eu rôl, cyfleoedd hyfforddi a meysydd cymorth eraill os oes angen. Caiff rhaglen hyfforddi bwrpasol ei datblygu yn dilyn y broses adolygu.

Mae dyfeisiau digidol, darpariaeth band eang a chymorth TGCh yn hanfodol i alluogi Cynghorwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol ac yn ddiogel. Mae'r holl Gynghorwyr wedi cael dyfeisiau digidol addas a darpariaeth ffôn yn dilyn y Rhaglen Sefydlu i Aelodau yn dilyn Etholiad Llywodraeth Leol 2022.



# DYLETSWYDD 3 . CYRCHU GWYBODAETH AM BENDERFYNIADAU A WNAED, NEU SYDD I'W GWNEUD, GAN Y PRIF GYNGOR

**Darparu gwell mynediad at wybodaeth am benderfyniadau sydd wedi'u gwneud, neu a fydd yn cael eu gwneud gan y cyngor**

Mae modd dod o hyd i'r wybodaeth yma hefyd ar wefan y Cyngor trwy ddarparu Hysbysiadau / Cofnodion Penderfyniadau Cabinet (mewn perthynas â Phenderfyniadau a wnaed gan y Cyngor mewn rhai cyfarfodydd Cyngor) a thrwy raglenni gwaith Pwyllgorau sy'n rhoi trosolwg o'r busnes sydd i'w ystyried yn y dyfodol agos yng nghyfarfodydd amrywiol y Cyngor. Mae Archifau Morgannwg hefyd yn cadw gwybodaeth mewn perthynas â busnes Pwyllgorau'r Cyngor i'r cyhoedd gael mynediad iddi.

Byddwn ni'n hyrwyddo'r wybodaeth yma ymhellach drwy symud Hysbysiadau o Benderfyniad ymlaen ar gyfer pob Pwyllgor o'r Cyngor, yn ogystal â chynhyrchu cofnodion y Cyngor. Bydd yr Hysbysiadau o Benderfyniad yma yn hyrwyddo tryloywder ymhellach trwy ddarparu trosolwg cryno o gyfarfod gan gynnwys y rhai a oedd yn bresennol, y penderfyniad a wnaed a chanlyniad unrhyw bleidlais, a gyhoeddir o fewn 7 diwrnod i'r cyfarfod.

### Hysbysiadau am gyfarfod

Bydd y Cyngor yn rhoi pum diwrnod gwaith clir o rybudd ar gyfer unrhyw gyfarfod ffurfiol o'r Cyngor drwy bostio manylion yn electronig ar wefan y Cyngor (o dan rai amgylchiadau efallai y bydd angen cyhoeddi papurau pwyllgor heb fod yn hwyrach na thri diwrnod gwaith clir). Bydd gwŷs pwyllgor hefyd yn cael ei hanfon yn electronig i wasanaethau craidd y Cyngor, megis llyfrgelloedd ac un i bob canolfan. Bydd modd i aelodau'r cyhoedd holi am unrhyw gyfarfodydd sydd i ddod yn y lleoliadau hyn lle bydd swyddogion yn gallu cynorthwyo.

Fodd bynnag, bydd eithriad lle mae'r Cyngor wedi derbyn cais gan yr Heddlu o dan adran 53A o Ddeddf Trwyddedu 2003 am adolygiad cryno o drwydded safle. (Mae'n ofynnol i'r Cyngor benderfynu a ddylid cymryd unrhyw fesurau rhagarweiniol o fewn 48 awr o dderbyn y cais), gall y Cyngor roi llai na 3 diwrnod clir o rybudd o gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer ystyried y cais.



## Cael Gafael ar yr Agenda a'r Adroddiadau cyn y Cyfarfod

Bydd copïau o'r agenda a'r adroddiadau sy'n agored i'r cyhoedd ar gael i'w harchwilio yma ac ym Mhencadlys y Cyngor yn dilyn cais am wybodaeth o'r fath.

Os bydd eitem frys yn cael ei hychwanegu at yr agenda yn dilyn ei chyhoeddiad gwreiddiol, bydd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn cyhoeddi'r agenda diwygiedig ac yn ei rhoi ar y wefan unwaith y bydd ar gael. Bydd cyfnod yr archwilio cyhoeddus felly o'r amser y cafodd yr eitem ei hychwanegu at yr agenda.

## Cyrchu Cofnodion ac ati ar ôl y Cyfarfod

Bydd y Cyngor yn sicrhau trefnu fod copïau o'r canlynol ar gael am gyfnod o chwe mlynedd ar ôl dyddiad Cyfarfod:

1. Cofnodion cyfarfodydd ffurfiol y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau neu gofnod o benderfyniadau a wnaed gan y Cabinet.
2. Yr Agenda ar gyfer Cyfarfod.

Os hoffai Aelod o'r Cyhoedd gael copi caled o'r uchod yna gellir ei gynhyrchu, yn dilyn derbyn cais drwy'r garfan Gwasanaethau Democrataidd, sydd wedi'i lleoli ym Mhencadlys y Cyngor.

O fis Mai 2023, bydd y Cyngor yn cyflwyno Hysbysiadau o Benderfyniad i gynorthwyo'r cyhoedd i ddeall canlyniad adroddiadau sy'n ymwneud ag eitemau pan oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd. Bydd nodyn penderfyniad yn nodi presenoldeb, unrhyw fuddiannau a ddatganwyd, a bydd penderfyniadau'n cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod cyn pen 7 diwrnod i'r cyfarfod.



## Bod yn bresennol i weld cyfarfodydd

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod modd i aelodau o'r cyhoedd ddod neu weld cyfarfodydd sydd yn agored i'r cyhoedd naill ai:

1. Wyneb yn wyneb
2. Trwy ymuno â'r cyfarfod ar-lein (Zoom) ar gyfer gwneud sylwadau / gofyn cwestiynau.
3. Trwy wylio cyfarfod yn fyw trwy ein tudalen gweddarllediad neu yn yr archif (bydd y gweddarlledIad ar gael i'w weld am 6 mis). Mae modd gwneud ceisiadau am gopïau o we-ddarllediadau wedi'u harchifo y tu hwnt i 6 mis drwy'r Gwasanaethau Democrataidd.

Nodwch: Dyw hyn ddim yn berthnasol yn achos gwybodaeth eithriedig neu gyfrinachol. Yn yr achosion hyn, bydd gofyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra bod yr eitem hon o fusnes yn cael ei hystyried. Er mwyn sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu yn ddidrafferth, lle bo'n bosibl bydd unrhyw eitemau eithriedig neu gyfrinachol yn cael eu nodi ar yr agenda fel yr eitemau busnes terfynol, fel bod y cyfarfod ar gau unwaith y bydd yr eitemau hyn wedi'u hystyried er mwyn osgoi'r cyhoedd rhag gorfod dychwelyd i'r cyfarfod. Pe byddai eitem yn cael ei hystyried yn ystod canol cyfarfod, byddai'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn sicrhau bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu tynnu o'r cyfarfod am gyfnod yr eitem ac yna'n cael eu gwahodd yn ôl i'r cyfarfod unwaith y byddai penderfyniad wedi'i wneud. Bydd canlyniad eitem gyfrinachol yn dal i gael ei arddangos yng nghofnodion y Pwyllgor a'r hysbysiad o benderfyniad er tryloywder. Mae adroddiadau yn benderfynol o fod yn gyfrinachol oherwydd y farn, oherwydd natur y busnes i'w drafod, y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu. Mae gwybodaeth eithriedig yn golygu gwybodaeth sy'n dod o fewn y 7 categori a amlinellir yn 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd). Byddai angen i awduron adroddiadau ddewis pa gategori o eithriad sy'n berthnasol i'w hadroddiad ac mae angen awdurdodi'r eithriad gan yr Uwch Swyddog Arweinyddiaeth perthnasol a Swyddog Monitro'r Cyngor.

# DYLETSWYDD 4. CYFLWYNO SYLWADAU I'R CYNGOR AM BENDERFYNIAD CYN AC AR ÔL IDDO GAEL EI WNEUD

**Darparu a hyrwyddo cyfleoedd i drigolion roi adborth i'r Cyngor, gan gynnwys sylwadau, cwynion a mathau eraill o sylwadau**

Mae hefyd modd dod o hyd i'r wybodaeth yma ar wefan y Cyngor ar agendâu Pwyllgorau ac mae rhagor o wybodaeth am siarad mewn cyfarfodydd Pwyllgor ar dudalennau gwybodaeth busnes cyffredinol y Cyngor. Mae 'ffrwd newyddion' y Cyngor hefyd yn tynnu sylw at eitemau i'w cyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor i helpu i hyrwyddo'r wybodaeth yma. Bydd manylion mynediad i gynllun sylwadau, canmoliaeth a chwynion y Cyngor hefyd ar gael ym Mhencadlys y Cyngor yn ogystal â lleoliadau eraill y Cyngor.

Byddwn ni'n hyrwyddo'r wybodaeth yma ymhellach trwy ddarparu'r llyfrynnau gwybodaeth canllaw ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â'r ddogfen yma fel copïau caled ym Mhencadlys y Cyngor a lleoliadau canolog eraill megis llyfrgelloedd y Cyngor, Canolfannau Hamdden.

Yn rhan o'r strategaeth cyfranogiad cyhoeddus yma, mae'r Cyngor wedi creu canllawiau ymgysylltu defnyddiol i alluogi'r cyhoedd i ddeall sut i gyflwyno cwestiwn neu annerch Pwyllgor. Mae modd dod o hyd i'r canllawiau hyn o dan y dolenni yn adran 2 y strategaeth yma.



Mae Fframwaith Cynnwys ac Ymgysylltu y Cyngor sy'n cyd-fynd ag ef yn amlinellu nifer o ddulliau i ganiatáu i bobl gymryd rhan a rhoi adborth cyn i benderfyniadau gael eu gwneud. Mae'r Fframwaith yma'n canolbwyntio ar bedair lefel o gyfranogiad: Darparu Gwybodaeth, Ymgynghori, Ymgysylltu a Cyd-gynhyrchu ac yn darparu ymrwymiad i gyflawni'r canlynol;

- Cryfhau'r diwylliant o ymgysylltu a chynnwys pobl
- Sicrhau bod ein cyfranogiad yn eglur a bod ganddo bwrpas
- Sicrhau ei bod yn hawdd i bawb gymryd rhan
- Hyfforddi a galluogi staff i feithrin y sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw
- Cynnig adborth i bobl ynglŷn â sut mae eu barn wedi'i defnyddio
- Gwerthuso'r hyn sydd wedi'i wneud er mwyn gwella yn y dyfodol

Rydyn ni'n darparu ystod o ddulliau i ganiatáu ystod eang o safbwyntiau gan ystod eang o randdeiliaid, mae hyn yn cynnwys llwyfannau digidol ar-lein yn ogystal ag ymgysylltu wyneb yn wyneb, opsiynau post a ffôn.
A ninnau'n Gyngor, rydyn ni'n gwerthfawrogi holl adborth ein cwsmeriaid (boed yn gadarnhaol neu'n negyddol) ac yn defnyddio'r wybodaeth yma i wella a datblygu gwasanaethau i ddiwallu anghenion cwsmeriaid a chymunedau lleol. Mae polisi Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion y Cyngor yn amlinellu proses y Cyngor ar gyfer ymdrin â chwynion ac adborth arall gan gwsmeriaid megis canmoliaeth a sylwadau. Mae e hefyd yn egluro'r hyn rydyn ni'n ei wneud gyda'r adborth sy'n dod i law.

Pe bai aelod o'r cyhoedd yn dymuno cyflwyno sylw neu gŵyn am wasanaeth a dderbyniwyd gan y Cyngor mae'r opsiynau canlynol ar gael:

- Cysylltu â Chynghorydd Sir lleol
- Cysylltu â'r aelod o'r Cabinet sy'n gyfrifol am y maes gwasanaeth
- Defnyddio gweithdrefn Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion y Cyngor
- Cysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed, CF35 5LJ Rhif ffôn: 0845 601 0987 neu drwy'r wefan www.ombwdsmoncymru.org.uk

Dylid cyfeirio sylwadau neu gwynion am ymddygiad cynghorydd at Swyddog Monitro'r Cyngor (cyfarwyddwr.cyfreithiol@rctcbc.gov.uk) neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.



# DYLETSWYDD 5. TREFNIADAU SYDD WEDI'U RHOI AR WAITH, AT DDIBENION DYLETSWYDD Y CYNGOR YN ADRAN 62 MESUR 2011

**i dynnu sylw'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu at farn y cyhoedd**

## Sut mae cymryd rhan mewn Craffu?

Mae craffu yn rhoi cyfle i'r cyhoedd (preswylwyr, sefydliadau cymunedol, partneriaid, ac ati), gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Cyngor. Os ydych chi'n breswylydd, mae modd ichi ofyn cwestiynau mewn cyfarfodydd Craffu. Mae rhagor o wybodaeth wedi'i chynnwys yn Adran Cymryd Rhan yn y Canllaw Craffu.

Cymryd rhan mewn gwaith craffu yw un o'r ffyrdd gorau o ddylanwadu ar benderfyniadau yn y Cyngor, gan y bydd Cynghorwyr yn clywed eich profiadau yn uniongyrchol. Mae sawl ffordd y gallwch chi gymryd rhan yng ngwaith craffu'r Cyngor:

1. Dod i gyfarfod Craffu.
2. Cyfrannu barn / tystiolaeth ar faterion sy'n cael eu harchwilio gan graffu.
3. Cael yr wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd ym maes craffu.
4. Adborth UserVoice.

Mae pob cyfarfod craffu yn agored i'r cyhoedd ac eithrio lle mae'n rhaid i wybodaeth eithriedig gael ei Thrafod. Dyma restr o ddyddiadau cyfarfodydd ac eitemau sydd i'w trafod. Pe hoffech chi gymryd rhan mewn cyfarfod (yn gorfforol neu o bell) dilynwch y cyfarwyddiadau ar yr agenda.

Er gwaethaf y Pwyllgor Craffu thematig a'r busnes wrth symud ymlaen, mae pob Pwyllgor Craffu yn gwerthfawrogi llais y defnyddiwr i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl.  Felly, pryd bynnag mae modd, mae Pwyllgorau'n bwrw ymlaen â'r gwaith craffu ymlaen llaw ar benderfyniad, sy'n golygu craffu ar newid polisi neu wasanaeth cyn i benderfyniad gael ei wneud, er mwyn sicrhau bod y penderfyniad arfaethedig yn gadarn cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet. Yn rhan o'r broses yma, bydd unrhyw ymgynghori a wneir yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgorau Craffu er mwyn rhoi cyfle i'r Pwyllgorau Craffu ac yna'r Cabinet / Cyngor glywed y Llais Defnyddwyr mewn perthynas â'r mater. Mae'r wybodaeth a'r adborth yma'n galluogi Aelodau i gael gwell dealltwriaeth o effaith cadarnhaol a negyddol posibl penderfyniad. Bydd aelodau'r Pwyllgor Craffu yn defnyddio'r wybodaeth sydd o'u blaenau i geisio eglurder pellach ar eitem neu i gynnig dewisiadau eraill nad ydynt efallai wedi'u hystyried, cyn i'r holl wybodaeth hon gael ei chyflwyno i'r Cabinet a/neu'r Cyngor er mwyn i'r penderfyniad terfynol gael ei wneud.

Yn y dyfodol, byddwn ni'n ceisio defnyddio llais y defnyddiwr gwasanaeth yn dilyn ymgynghoriadau cyhoeddus i gymryd rhan mewn cynllunio rhaglen waith ar gyfer y pwyllgor craffu priodol.

Byddwn hefyd yn cryfhau 'r trefniadau presennol sydd gennym ar waith i werthuso'r effaith y mae gwaith y Cyngor wedi'i chael ar ddefnyddwyr gwasanaethau a chyflawni canlyniadau, ac yn ymgorffori hyn yn ein prosesau rheoli perfformiad.

Yn unol â'r gofynion deddfwriaethol mewn perthynas â'r cynllun deisebau, bydd cynllun deisebau diwygiedig y Cyngor yn hyrwyddo'r cyfle ymhellach i'r UserVoice ddod yn rhan o'r broses ddemocrataidd drwy ganiatáu i ddeisebau gael eu cyflwyno i'r Cyngor, ac i hyn gael ei gyfeirio at adroddiad Pwyllgor Trosolwg a Chraffu y Cyngor i graffu'n llawn ar gynnwys y ddeiseb, os bernir bod hynny'n briodol, ar yr amod bod y ddeiseb yn cadw at feini prawf penodol.



# DYLETSWYDD 6. MANTEISION CYNGHORWYR YN DEFNYDDIO CYFRYNGAU CYMDEITHASOL I GYFATHREBU Â PHOBL LEOL

**Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fanteision defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â thrigolion i gynghorwyr**

Mae cyfryngau cymdeithasol yn gyfrwng da i Gynghorwyr, gan eu helpu i ymgysylltu â chymunedau, cynyddu ymwybyddiaeth o faterion cymunedol, achlysuron, neu fentrau'r Cyngor ac i geisio barn a derbyn adborth.

Mae cyfryngau cymdeithasol wedi newid sut mae gwleidyddiaeth yn gweithio. Mae'n gwneud gwleidyddion a chyhoeddus yn fwy hygyrch, yn galluogi unigolion i leisio eu barn ac yn helpu rhannu syniadau neu hyrwyddo ymgyrchoedd.

Trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol gall Cynghorwyr:

1. Gwybod am faterion/problemau lleol, a phryderon.
2. Cael y newyddion a'r cyhoeddiadau diweddaraf gan Gyngor Rhondda Cynon Taf, Awdurdodau Lleol eraill, Llywodraeth Cymru, a sefydliadau fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
3. Hyrwyddo eu rôl a'r hyn maen nhw'n ei wneud o ddydd i ddydd.
4. Rhannu gwybodaeth yn gyflym a chael barn eu hetholwyr.



Mae llawer o Gynghorwyr eisoes yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol; fodd bynnag, rhaid i Gynghorwyr gofio eu bod wedi'u rhwymo gan y Cod Ymddygiad gan ei fod yr un mor berthnasol i gynnwys ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol. Mae cynghorwyr yn bersonol gyfrifol am y cynnwys y maen nhw'n ei ryddhau, ac mae cadw at y Cod Ymddygiad wrth gyflwyno gwybodaeth.

Mae cynghorwyr wedi cael cyfleoedd hyfforddi cyfryngau cymdeithasol i helpu gyda rheoli cyfrifon cyfryngau cymdeithasol eu Cyngor. Rydyn ni'n annog Cynghorwyr i fwrw ymlaen â chyfrif Cynghorydd ar wahân ac ymatal rhag rhannu unrhyw wybodaeth bersonol ar y cyfrif hwn â'u platfformau cyfryngau cymdeithasol personol eu hunain. Mae polisi cyfryngau cymdeithasol ar gael hefyd.

Mae ffeithluniau i gynorthwyo Cynghorwyr gyda gweithgaredd ar-lein wedi cael eu hyrwyddo gan Uned Materion Busnes y Cyngor, i Gynghorwyr eu defnyddio.

Mae cyfrifon cyfryngau cymdeithasol cynghorwyr wedi'u rhestru o dan broffil pob Cynghorydd ar wefan y Cyngor er mwyn cynorthwyo etholwyr i gael mynediad at Gynghorwyr.

Dylid nodi bod y defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan Gynghorwyr a'r Cyngor yn gyffredinol yn ychwanegol at y dulliau all-lein eraill o ymgysylltu a dulliau wyneb yn wyneb. Mae'r Cyngor yn darparu amrywiaeth o ddulliau i sicrhau amrywiaeth o safbwyntiau sy'n cynnwys y rhai a all fod wedi'u hallgáu'n ddigidol.

Rhestrir adnoddau eraill i Gynghorwyr eu defnyddio o ran diogelwch personol a cham-drin ar-lein isod:

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi darparu canllawiau rhad ac am ddim i Gynghorwyr ynghyd ag awgrymiadau a chyngor ar fynd i'r afael â cham-drin ar-lein.

https://www.wlga.cymru/social-media-and-online-abuse

https://protect-eu.mimecast.com/s/-L9yCMQA3H5Ep2qfWt8Tz

Cam-drin ar-lein.png (1920×960) (local.gov.uk)





# ADRAN 2

**Mae modd dod o hyd i fanylion am sut mae modd i'r cyhoedd gymryd rhan gyda'r Cyngor yma:**

Mae'r dolenni canlynol yn darparu gwybodaeth fanwl a chyngor er mwyn eich helpu chi wrth gymryd rhan â'r Cyngor mewn perthynas â chyfarfodydd pwyllgor. Mae trosolwg byr wedi'i nodi isod.

- **Mae modd gweld Fframwaith Cynnwys ac Ymgysylltu 2020-2024 y Cyngor yma**
- **Mae modd gweld Canllaw Cymryd Rhan yng Ngwaith y Cyngor i Drigolion yma**
- **Mae modd gweld Canllaw Cymryd Rhan yng Ngwaith Craffu i Drigolion yma**
- **Mae modd gweld Canllaw Cymryd Rhan yng Ngwaith y Cabinet i Drigolion yma**
- **Mae modd gweld Canllaw Cymryd Rhan mewn Pwyllgorau Rheoleiddiol i Drigolion yma**

(DS. Lle nad yw aelodau'r cyhoedd yn gallu cyrchu'r hyperddolenni y cyfeirir atyn nhw uchod, gall carfan y Gwasanaethau Democrataidd, sydd wedi'u lleoli ym Mhencadlys y Cyngor. Mae modd dod o hyd i'r manylion cyswllt ar ddiwedd adran 2 y ddogfen yma.

## Cymryd rhan yng nghyfarfodydd Cyngor Rhondda Cynon Taf.

Mae'r Cyngor llawn yn cwrdd unwaith y mis ac mae modd dod o hyd i'r calendr yma.

Fe gaiff unrhyw un o drigolion Rhondda Cynon Taf, neu o'r rhai sy'n talu'r Dreth Gyngor neu'r Dreth Annomestig yn Rhondda Cynon Taf, ofyn cwestiynau i Aelodau o'r Adain Weithredol, neu i Gadeiryddion Pwyllgorau, neu i unrhyw un o Aelodau o'r Cyngor. Mewn unrhyw un cyfarfod chaiff neb gyflwyno mwy nag un cwestiwn, a dim mwy nag un cwestiwn o'r fath ar ran un mudiad/sefydliad.

Mae modd gofyn cwestiwn dim ond os ydych chi wedi rhoi rhybudd ysgrifenedig trwy e-bost i'r Swyddog Priodol cyn 5.00pm o leiaf 8 diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod (heb gynnwys diwrnod y cyfarfod).

Rhaid i bob cwestiwn roi enw a chyfeiriad y sawl sy'n ei ofyn, gan nodi'r Aelod sydd angen ymateb i'r cwestiwn.

Yn y cyfarfod, bydd gan ymgeisydd 5 munud i ofyn ei gwestiwn ac yno bydd modd iddo ofyn cwestiwn ychwanegol heb roi rhybudd. Fodd bynnag, rhaid i'r cwestiwn ymwneud ag ateb y cwestiwn cychwynnol. Rhaid gofyn y cwestiwn ychwanegol yma o fewn y 5 munud a ddyrannwyd.

Mae modd dod o hyd i fanylion am y meini prawf ar gyfer cwestiynau sy'n cael eu caniatáu trwy ddilyn y ddolen uchod.

Os ydych chi'n dymuno cymryd rhan yng nghyfarfodydd llawn y Cyngor, bwriwch olwg ar y canllaw neu gysylltu â ni trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt ar waelod yr adran yma.

## Cymryd rhan yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Craffu Rhondda Cynon Taf.

Mae rhestr o holl gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu ar gyfer blwyddyn bresennol y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor trwy'r ddolen.

Mae gan unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio yn Rhondda Cynon Taf ac sydd wedi cofrestru ymlaen llaw yr hawl i siarad mewn cyfarfod wedi'i drefnu o un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor.

Dim ond dau siaradwr sy'n cael siarad ar bob eitem ar yr agenda, ac mae gyda'r Cadeirydd ddisgresiwn i ganiatáu i ragor o bobl siarad os yw'n teimlo ei fod yn briodol gwneud hynny.

Rhaid i aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno siarad roi gwybod i'r Gwasanaethau Democrataidd erbyn 5pm ar y diwrnod gwaith olaf ond un cyn cyfarfod perthnasol y Pwyllgor Craffu.

Rhaid i geisiadau gynnwys manylion yr eitem ar agenda'r Pwyllgor Craffu perthnasol hoffech chi siarad amdani. Rydyn ni'n ymdrin â cheisiadau yn y drefn y maen nhw'n cael eu derbyn.

Ar gyfer pob eitem ar yr agenda, mae modd neilltuo uchafswm o 10 munud o amser siarad. Bydd siaradwyr unigol yn cael siarad am 5 munud ar bob eitem ar yr agenda.

Er mwyn cymryd rhan yng nghyfarfod y Pwyllgor Crafu, bwriwch olwg ar y canllaw llawn neu gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt sydd wedi'u nodi ar waelod yr adran yma.



## Cymryd rhan yng nghyfarfodydd Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Rhondda Cynon Taf.

Mae rhestr o holl gyfarfodydd y Cabinet ar gyfer blwyddyn bresennol y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor. Cliciwch yma.

Mae modd i unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio yn Rhondda Cynon Taf gael cyfle i annerch y Cabinet mewn cyfarfod arferol, yn amodol ar ddisgresiwn y Cadeirydd. Serch hynny, rhaid cofrestru'ch bwriad i wneud hynny ymlaen llaw.

Y Cadeirydd fydd yn penderfynu ar nifer y siaradwyr a gaiff annerch y Cabinet am bob eitem ar yr agenda, ac mae modd i'r Cadeirydd ofyn i un siaradwr gyfleu sylwadau grŵp o bobl os bydd nifer o geisiadau i siarad yn dod i law ynglŷn â'r un eitem ar yr agenda.

Rhaid i aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno siarad yn y cyfarfod anfon e-bost at y garfan Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol erbyn 5pm ar y diwrnod gwaith olaf ond un cyn y cyfarfod perthnasol.

Rhaid i geisiadau gynnwys manylion yr eitem ar agenda'r Cabinet yr hoffech chi siarad amdani. Rydyn ni'n ymdrin â cheisiadau yn y drefn y maen nhw'n cael eu derbyn.

Byddwn ni'n rhoi gwybod i bawb sydd wedi cofrestru i siarad cyn y cyfarfod os yw eu cais i siarad wedi cael ei dderbyn, naill ai drwy e-bost neu drwy'r rhif ffôn cyswllt maen nhw wedi'i ddarparu.

Bydd gan siaradwyr unigol hyd at 5 munud i annerch y Cabinet.  Os oes nifer o siaradwyr cyhoeddus ar gyfer eitem benodol ar yr agenda, mae modd i'r Cadeirydd, yn ôl ei ddisgresiwn, leihau'r amser a neilltuir i bob siaradwr er mwyn rhoi cyfle i bawb siarad. Bydd y siaradwyr yn cael gwybod am y newid yma cyn y cyfarfod.

Er mwyn cymryd rhan yng nghyfarfod y Cabinet, bwriwch olwg ar y canllaw llawn neu gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt sydd wedi'u nodi ar waelod yr adran yma.



## Cymryd rhan yng nghyfarfodydd Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Rhondda Cynon Taf.

Mae rhestr o holl gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu ar gyfer blwyddyn bresennol y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor. Cliciwch yma.

Y ffordd hawsaf a mwyaf priodol i'r cyhoedd neu unrhyw un arall sydd â diddordeb mewn cais cynllunio nodi eu sylwadau yw drwy ysgrifennu llythyr. Rhaid cyflwyno sylwadau o fewn cyfnod amser penodol, fel arfer 21 diwrnod o ddyddiad y llythyr ymgynghori gwreiddiol. Dyma gyfle inni ofalu ein bod ni'n ystyried yn ofalus unrhyw sylwadau rydyn ni wedi'u derbyn cyn dod i benderfyniad. Mae modd dod o hyd i ganllawiau pellach yma.

Os bydd angen i Bwyllgor Cynllunio a Datblygu'r Cyngor benderfynu ar y cais, mae modd i chi annerch y Pwyllgor ar y cais perthnasol pan fydd y mater yn cael ei drafod

Fel arall, os na allwch chi ddod i gyfarfod perthnasol y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu i annerch y Pwyllgor ynglŷn â'r cais, mae modd i chi gyflwyno sylwadau ysgrifenedig.

Mae gan ymgeiswyr, ymgynghorwyr neu asiantau proffesiynol, ac aelodau'r cyhoedd hawl i siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu, ar yr amod eu bod wedi cofrestru eu bwriad i annerch y Pwyllgor erbyn y dyddiad cau penodedig.

Mae modd i aelodau sydd ddim yn rhan o'r pwyllgor ac aelodau o'r cyhoedd ofyn i annerch y pwyllgor yn ystod cyfarfod sy'n ymwneud â'r mater sydd wedi'i nodi. Pe hoffech chi gofrestru i siarad â'r Pwyllgor, e-bostiwch gwasanaethaucynllunio@rctcbc.gov.uk erbyn 5pm ar y diwrnod gwaith olaf ond un cyn cyfarfod perthnasol y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu.  Fel arall, mae modd i berson gofrestru ei ddiddordeb mewn siarad ar wefan y Cyngor trwy ddilyn y ddolen yma.

Caiff siaradwyr cyhoeddus hyd at 5 munud i annerch y Pwyllgor ynglŷn â chais cynllunio. Nodwch fod 5 munud arall yn cael ei neilltuo er mwyn i'r ymgeisydd neu ymgynghorydd proffesiynol ar ran yr ymgeisydd ymateb i fanylion newydd a gaiff eu cyflwyno gan y gwrthwynebydd/gwrthwynebwyr neu ymgynghorwyr proffesiynol ar eu rhan.

Er mwyn cymryd rhan yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu, bwriwch olwg ar y canllaw llawn neu gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt sydd wedi'u nodi ar waelod yr adran yma.



## Gwybodaeth Gyffredinol

Bydd modd trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer pob cyfarfod pe bydd cyfranogwr yn dymuno annerch y pwyllgor trwy gyfrwng y Gymraeg.

Os oes gan gyfranogwr anabledd neu unrhyw anghenion ychwanegol ac agen cymorth er mwyn cymryd rhan yn unrhyw un o'r prosesau sydd wedi'u hamlinellu uchod, mae modd trefnu hynny.

Os bydd rhywun o dan 16 oed yn dymuno annerch unrhyw bwyllgor, byddwn ni'n trefnu iddyn nhw ddod ag oedolyn gyda nhw. Yn ogystal â hynny, bydd angen cwblhau'r dogfennau GDPR perthnasol.

I gymryd rhan yn unrhyw un o'r cyfarfodydd sydd wedi'u nodi uchod, bwriwch olwg ar y canllaw llawn sydd wedi'i atodi ar ddechrau adran 2. Os oes gyda chi unrhyw gwestiynau am aelodau'r cyhoedd yn siarad mewn cyfarfod, mae croeso i chi gysylltu ag aelod o'n carfan gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod:-

Llythyr: Uned Busnes y Cyngor, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, 3ydd Llawr, 2 Llys Cadwyn, Stryd y Taf, Pontypridd, CF37 4TH

Ffôn: 07385 401845

E-bost: BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk



# ADRAN 3

## Sut byddwn ni'n mesur llwyddiant?

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod nifer o ddyletswyddau ar awdurdodau lleol o ran cyfranogiad, a restrir isod:

- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r swyddogaethau y mae'r Cyngor yn eu cyflawni ymhlith trigolion lleol, busnesau ac ymwelwyr.
- Rhannu gwybodaeth am sut i fynd ati i ddod yn aelod etholedig – neu gynghorydd – a beth mae bod yn gynghorydd yn ei olygu.
- Gwella'r modd i gyrchu gwybodaeth am benderfyniadau sydd wedi'u gwneud, neu a fydd yn cael eu gwneud gan y Cyngor.
- Darparu a hyrwyddo cyfleoedd i drigolion roi adborth i'r Cyngor, gan gynnwys sylwadau, cwynion a mathau eraill o sylwadau.
- Trefniadau sydd wedi'u rhoi ar waith i dynnu sylw'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu at farn y cyhoedd.
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fanteision defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â thrigolion.

Yn benodol mewn perthynas â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, byddwn yn edrych i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu a ganlyn i wella profiadau Aelodau'r Cyhoedd a'r Cyngor yn ei gyfanrwydd. Mae effaith arfaethedig camau gweithredu o'r fath wedi'u rhestru isod a lle bo'n briodol, mae Mesurau wedi'u cynnwys hefyd i'n cynorthwyo gyda'n nodau:

# NOD:

## Hyrwyddo ymwybyddiaeth o’r swyddogaethau y mae’r Cyngor yn eu cyflawni ymhlith trigolion lleol, busnesau ac ymwelwyr.

| Ar waith | Camau gwella | Effaith/Mesur |
|---|---|---|
| Gwefan y Cyngor, lle gall pobl weld agendâu, cofnodion a phenderfyniadau -Pwyllgorau. | Adolygu tudalennau gwe'r Cyngor i sicrhau eu bod yn ymgysylltu ac yn cael eu diweddaru yn ôl yr angen. Defnyddio'r faner hyrwyddo i arddangos gwybodaeth am gyfarfodydd arbennig y Cyngor a allai fod o ddiddordeb cyffredinol, hynny yw, Dadl yr Arweinydd / Ceisiadau Cynllunio Mawr. | Effaith – Mae Aelodau'r Cyhoedd yn teimlo'n fwy gwybodus oherwydd yr wybodaeth sydd ar gael a rhwyddineb mynediad i gael yr wybodaeth. |
| Cynllun Corfforaethol a strategaethau cysylltiedig sydd ar gael i’r cyhoedd. | Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2024, yn cael ei lywio gan flaenoriaethau preswylwyr a rhanddeiliaid. | Effaith – Cyhoeddi Cynllun Corfforaethol 2024, wedi'i lunio gan drigolion a rhanddeiliaid. |
| Gwe-ddarlledu Cyfarfodydd y Cyngor yn fyw. | Parhau â gwe-ddarlledu byw o gyfarfodydd Hybrid sydd i'w cynnal yn y Cyngor. | Mesur – Niferoedd sy'n cyrchu'r wefan. |
| Mae Gwefan Ymgysylltu Dewch i Siarad RhCT yn darparu llwyfan ar-lein i ymgysylltu â’r cyhoedd ar brosiectau allweddol. | Gwerthuso’r wefan yn flynyddol a pharhau i adeiladu a hyrwyddo’r defnydd o’r wefan ar gyfer ymgysylltu digidol. | Nifer y prosiectau a lefelau ymgysylltu. |

# NOD:

**Rhannu gwybodaeth am sut i fynd ati i ddod yn aelod etholedig – neu gynghorydd – a beth mae bod yn gynghorydd yn ei olygu.**

| Ar waith | Camau gwella | Effaith/Mesur |
|---|---|---|
| Wythnos Democratiaeth Leol – Hyrwyddir rôl y cynghorydd trwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor. | Cynnal ymgyrch arall yn ystod Wythnos Democratiaeth Leol. | Effaith – Mae gan y cyhoedd ddealltwriaeth well o rôl Cynghorydd a sut mae modd iddyn nhw ddod yn ymgeisydd yn y dyfodol. |
| Adran bwrpasol 'Dod yn Gynghorydd' ar Wefan y Cyngor.<br>Fideos ar 'Ffeithiau Rôl Cynghorydd' a 'Profiadau Rôl Cynghorydd'. | Adolygu'r wefan i sicrhau cywirdeb yr wybodaeth – gan ddefnyddio syniadau Aelodau Newydd eu hethol ynghylch pa wybodaeth ychwanegol fyddai'n ddefnyddiol. | Effaith – Mae gan y cyhoedd ddealltwriaeth well o rôl Cynghorydd a sut mae modd iddyn nhw ddod yn ymgeisydd yn y dyfodol. |
| Hyrwyddo darpariaeth hyfforddiant a chefnogaeth i alluogi Cynghorwyr i gyflawni eu rôl. | Hyrwyddo'r ddarpariaeth o gefnogaeth ar wefan y Cyngor. | Effaith – Mae modd i ddarpar ymgeiswyr gyrchu gwybodaeth i'w cynorthwyo yn eu gwybodaeth am y cyfleoedd cymorth sydd ar gael i Gynghorwyr i'w cynorthwyo yn eu rolau. |
| Darpariaeth ddwyieithog. | Parhau i ddarparu cyfleoedd dwyieithog a threfniadau cymorth i bob Aelod Etholedig gan gynnwys darparu deunyddiau / cyfleusterau cyfieithu / cyfleoedd hyfforddi. | Effaith – Cefnogi'r holl Aelodau gyda'u dewis iaith a darparu cyfleoedd dysgu i bob Aelod o ran y Gymraeg. |

# NOD:

## Gwella’r modd i gyrchu gwybodaeth am benderfyniadau sydd wedi’u gwneud, neu a fydd yn cael eu gwneud gan y cyngor

| Ar waith | Camau gwella | Effaith/Mesur |
|---|---|---|
| Gwefan y Cyngor – Hysbysiadau o Benderfyniadau / Cofnodion / Penderfyniadau Dirprwyedig Allweddol / Penderfyniadau gan Aelodau o’r Cabinet / Dadl yr Arweinwyr | Sicrhau bod modd llywio trwy’r wefan yn hawdd o ran y trefniadau gwneud penderfyniadau o fewn yr Awdurdod. | Mesur – Cyflwyno Hysbysiadau o Benderfyniadau yn dilyn pob Pwyllgor o’r Cyngor.<br><br>Effaith – Rhagor o eglurdeb a mynediad at wybodaeth. |
| Gwe-ddarlledu Cyfarfodydd y Cyngor yn fyw | Parhau â gwe-ddarlledu byw o gyfarfodydd Hybrid sydd i'w cynnal yn y Cyngor. | Mesur – Niferoedd sy'n cyrchu'r wefan. |
| Rhaglenni Gwaith ar gyfer y Dyfodol. | Sicrhau bod Rhaglenni Gwaith y Dyfodol yn ychwanegu gwerth at y broses graffu a’u bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau. | Mesur – Nifer yr eitemau ar y rhaglen waith yn erbyn nifer yr eitemau a ystyriwyd mewn gwirionedd. |
| Adroddiadau Blynyddol. | Sicrhau bod adroddiadau blynyddol yn cael eu darparu ar gyfer rhai o brif Bwyllgorau’r Cyngor er mwyn darparu cyd-destun a gwybodaeth am y gwaith sy’n cael ei wneud. | Mesur – Cyhoeddi Adroddiadau. |

# NOD:

**Darparu a hyrwyddo cyfleoedd i drigolion roi adborth i'r cyngor, gan gynnwys sylwadau, cwynion a mathau eraill o sylwadau.**

| Ar waith | Camau gwella | Effaith/Mesur |
|---|---|---|
| Ymgynghori – Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar bob newid i wasanaethau a datblygiad polisi ac yn hyrwyddo'r broses, gyda'r nod o gael ystod eang o adborth gan ystod eang o randdeiliaid. | Parhau â'r dull gweithredu, gan sicrhau bod y grwpiau anodd eu cyrraedd ac sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yn cael eu cynnwys. | mesur – Nifer yr ymgynghoriadau, niferoedd sy'n ymgysylltu. |
| Mae gwefan y Cyngor yn rhoi cyfle i bobl roi adborth. | Cynyddu amlygrwydd/hwyluso mynediad at y porth adborth. | Mesur – Nifer y sylwadau, canmol a chwyno. |
| Cynllun Deisebau. | Mae'r Cyngor yn bwriadu adolygu ei gynllun deisebau presennol i hyrwyddo'r llwyfan ymgysylltu a sicrhau atebolrwydd a thryloywder. | Mesur – Rhagor o ymgysylltiad â'r cynllun. |
| Mynychu a siarad mewn cyfarfod Pwyllgor – Cabinet / Cyngor / Cynllunio. | Gwe-ddarllediad o gyfarfodydd yn dangos ymgysylltiad y cyhoedd mewn cyfarfodydd Bwrw ymlaen ag adran ar wefan y Cyngor ar gyfer 'cyfranogiad'. | Mesur – Nifer y trigolion sy'n mynychu ac yn ymgysylltu â chyfarfodydd Pwyllgor. |

# NOD:

**Trefniadau sydd wedi'u rhoi ar waith i dynnu sylw'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu at farn y cyhoedd.**

| Ar waith | Camau gwella | Effaith/Mesur |
|---|---|---|
| Mynychu cyfarfod Pwyllgor Craffu a siarad ynddo. | Parhau i hyrwyddo argaeledd y cyfle hwn trwy gyhoeddi'r Canllaw Cymryd Rhan yng Ngwaith Craffu i Drigolion. | Mesur – Nifer y trigolion sy'n mynychu ac yn ymgysylltu â'r broses graffu. |
| Awgrymu pwnc i bwyllgor craffu ei ystyried yn rhan o'i raglenni gwaith drwy'r cyfeiriad e-bost craffu pwrpasol. | Parhau â'r dull presennol o gyhoeddi/diweddaru'r rhaglenni gwaith craffu er mwyn darparu eglurdeb a blaengynllunio. | Mesur – Ymgysylltu â'r cyhoedd â'r blaenraglenni gwaith. |
| Defnyddio llwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol i rannu gwybodaeth am Bwyllgorau Craffu ac annog cyfranogiad. | Creu cynlluniau i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo a rhannu gwybodaeth. Ymchwilio i'r ffyrdd gorau o hwyluso gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd. | Mesur – Rhyngweithio/sylwadau gan y cyhoedd. |
| Gweld y darllediad byw o'r pwyllgorau craffu. | Parhau i gyhoeddi'r ddolen i dudalennau gwe-ddarlledu'r cyngor ar agendâu'r pwyllgorau craffu. | Mesur – Nifer y bobl sy'n galw heibio i dudalennau gwe-ddarlledu'r Cyngor. |

# NOD:

## Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fanteision defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â thrigolion.

| Ar waith | Camau gwella | Effaith/Mesur |
|---|---|---|
| Rhaglen/hyfforddiant sefydlu/cyflwyno cynhwysfawr i aelodau (a hyfforddiant parhaus). Adolygiadau Datblygiad Personol Aelodau (PDR). | Cynnal hyfforddiant ‘gloywi’ i Aelodau Etholedig. Gofyn yn benodol i Aelodau ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a chyfleoedd hyfforddi yn yr adolygiadau. | Mesur – Nifer yr aelodau sy’n cymryd rhan mewn hyfforddiant ac yn teimlo’n hyderus i ddatblygu presenoldeb cyfryngau cymdeithasol.<br><br>Effaith – Gall aelodau ddysgu am fanteision cyfryngau cymdeithasol trwy’r broses PDR. |
| Argaeledd ffeithluniau i gynorthwyo aelodau gyda chyfathrebu. | Cynnal arolwg o’r ffeithluniau angenrheidiol. | Mesur – Nifer yr aelodau sy’n ymgysylltu â’r ddarpariaeth. |
| Manylion cyswllt cyfryngau cymdeithasol ee Trydar yn cael ei hyrwyddo ar dudalen proffil pob Aelod ar wefan y Cyngor. | Anfon at Aelodau ar gyfer Manylion cyswllt Defnyddiol gan gynnwys cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. | Mesur – Hyrwyddo mwy o fanylion ymgysylltu. |

# RHESTR TERMAU

| | |
|---|---|
| **Ardystio** | I fod yn dyst i rywbeth |
| **Blwch Pleidleisio** | Bocs wedi'i selio y rhoddir pleidleisiau ynddo ar ddiwrnod etholiad |
| **Cyllideb** | Swm o arian y gall y Cyngor ei wario ar ddarparu gwasanaethau (ysgolion, gofal cymdeithasol, casglu sbwriel ac ati) bob blwyddyn. Daw'r gyllideb o arian a godwyd o'r Dreth Gyngor ac o arian y Llywodraeth |
| **Fframwaith Cyllideb a Pholisi** | Enw ar holl bolisïau'r Cyngor y mae'n rhaid eu defnyddio wrth wneud unrhyw benderfyniadau |
| **Cabinet** | Grŵp llai o Gynghorwyr a ddewiswyd gan Arweinydd y Cyngor i arwain gwaith a phenderfyniadau'r Cyngor. Mae gan bob un ohonyn nhw faes cyfrifoldeb penodol. |
| **Ymgeisydd** | Unrhyw un sy'n sefyll mewn etholiad |
| **Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr** | Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am holl staff RhCT (nid Cynghorwyr etholedig). Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am rannau penodol o Gyngor Bwrdeistref Sirol RhCT. |
| **Cod Ymddygiad** | Set o reolau sy'n disgrifio sut mae disgwyl i Gynghorwyr ymddwyn mewn gwahanol rannau o'u swydd fel Cynghorydd |
| **Pwyllgorau** | Grwpiau llai o Gynghorwyr sy'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion penodol |
| **Cyfansoddiad** | Dogfen gyfreithiol ysgrifenedig sy'n llywio prosesau gwneud penderfyniadau y Cyngor |
| **Y Cyngor** | Y grŵp llawn o Gynghorwyr etholedig sy'n gwneud penderfyniadau |
| **Yr Uwch Garfan Rheoli** | Y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr RhCT sy'n gyfrifol am wahanol rannau o waith a gwasanaethau'r Cyngor |
| **Rhaglen Sefydlu Cynghorwyr** | Yr hyfforddiant y mae pob Cynghorydd yn cymryd rhan ynddo i ddysgu sut i fod yn Gynghorydd |
| **Cynghorwyr** | Cynrychiolwyr etholedig o bob rhan o ardal Rhondda, Cynon a Thaf |
| **Cyfaill Beirniadol** | Person neu grŵp o bobl sy'n helpu i sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud yn gywir ac o fewn y rheolau |
| **Gwasanaethau Democrataidd** | Carfan o staff sy'n gweithio i sicrhau bod Cynghorwyr yn cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw, ac sy'n helpu i gynnal cyfarfodydd a hyfforddiant i Gynghorwyr |
| **Atebol yn Ddemocrataidd** | Bod yn gyfrifol am eich gwaith gan y bobl a all bleidleisio drosoch mewn etholiadau |
| **Dyfeisiau digidol a darpariaeth teleffoni** | Y cyfrifiaduron, rhyngrwyd a ffonau sydd eu hangen ar gyfer gwaith y Cyngor |
| **Disgresiwn a phenderfyniad** | Mae hyn yn golygu mai dim ond dewis yr Arweinydd ydyw, nid penderfyniad grŵp |
| **Dyletswyddau** | Y cyfrifoldebau a'r gwaith y mae'n rhaid i berson ei wneud |
| **Aelodau Etholedig** | Enw arall ar Gynghorwyr |
| Wardiau Etholiadol | Yr ardaloedd a'r cymunedau lleol llai yn RhCT sy'n pleidleisio dros Gynghorwyr lleol |
| Swyddogaethau Gweithredol | Penderfyniadau y mae modd eu gwneud gan unigolion neu grwpiau fel y Cabinet, Pwyllgorau neu swyddogion |

| | |
|---|---|
| **Rhaglen waith hyblyg** | Rhestr o bynciau y mae angen i bwyllgorau eu hystyried ac a all newid dros amser |
| **Achlysuron** | Y gwahanol fathau o waith sy'n cael ei wneud |
| **Cyfarfodydd hybrid** | Cyfarfodydd y gall pobl gymryd rhan ynddyn nhw ar-lein ac yn bersonol |
| **Yn gyfrinachol** | Yn breifat |
| **Ffeithluniau** | Lluniau a graffiau sy'n egluro gwybodaeth |
| **Mentrau** | Syniadau a chynlluniau newydd |
| **Rhannu swydd** | Mae dau neu fwy o bobl yn rhannu gwaith un swydd amser llawn |
| **Penderfyniadau Allweddol** | Penderfyniadau lefel uchel neu bwysig iawn sy'n effeithio ar lawer o benderfyniadau eraill |
| **Gwneud sylwadau** | Siarad â'r Cyngor a rhoi gwybodaeth neu farn iddo |
| **Blwyddyn ddinesig** | O'r dyddiad sy'n dilyn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor tan y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf. Fel arfer cynhelir y Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol ym mis Mai |
| **Penderfyniadau wedi'u dirprwyo i swyddog** | Penderfyniadau a wneir gan staff RhCT yn hytrach na chan Gynghorwyr |
| **Swyddogion** | Pobl sy'n gweithio i RhCT/aelodau o staff |
| **Portffolio** | Y rhestr o feysydd gwaith y mae grŵp yn gyfrifol amdanyn nhw |
| **Craffu cyn penderfynu** | Archwilio gwybodaeth a thystiolaeth gan y Pwyllgor Craffu cyn i swyddog neu Gabinet wneud penderfyniad |
| **Addasiadau rhesymol** | Newidiadau y mae modd eu gwneud i sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at swydd a gwneud swydd, mynychu cyfarfod ac ati, gan ystyried unrhyw anabledd neu anghenion eraill sydd ganddynt |
| **Taliadau** | Arian a delir yn gyfnewid am waith neu i dalu costau |
| **Cynghorwyr sy'n dychwelyd** | Cynghorwyr sydd wedi cael eu hail-ethol |
| **Cyflog** | Swm blynyddol sydd fel arfer yn cael ei dalu'n fisol yn gyfnewid am wneud swydd |
| **Cynllun Dirprwyo** | Cynllun ar gyfer pwy sy'n gyfrifol am wahanol rannau o'r gwaith a roddir iddyn nhw |
| **Cynhaliaeth** | Arian a delir am fwyd, diodydd, teithio a chostau hanfodol eraill wrth weithio |
| **Cymorthfeydd** | Amseroedd pan all aelodau o'r cyhoedd ymweld â'u Cynghorydd mewn man cyhoeddus i drafod materion yn eu cymunedau |
| **Cylch Gorchwyl** | Y cynllun y cytunwyd arno o ddiben y grŵp a sut y byddan nhw'n gwneud eu gwaith |
| **Etholaeth** | Pobl sy'n byw yn yr ardal ac yn pleidleisio dros Gynghorwyr |

# CONTACT US:

**Cysylltu â ni**
**Ymholiadau Cyffredinol:**
01443 425005
**E-bost:**
GwasanaethauiGwsmeriaid@rhondda-cynon-taf.gov.uk
**Gwefan:**
www.rctcbc.gov.uk/Cysylltu

RHONDDA CYNON TAF